

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr Cenn@d

Drwy holl ganrifoedd cred mae Eglwys Iesu Grist wedi ceisio gosod mewn geiriau yr hyn sydd i tu hwnt i'n hamgyffred, a thu hwnt mewn gwirionedd i'n diffiniadau. Ond credwn oll yn gytûn yn Iesu Grist y daeth 'duwdod mewn baban i'n byd'. Heddiw cawn ymuno yn 'nhraddodiad' yr eglwys ym mhob man i ddathlu dyfodiad Iesu Grist. Dyma rodd Duw i'r byd.



Llun: pixabay.com/illustrations/christmas-crib-barn-bethlehem-1010749/

Dyma'r 'lle cyfyng' sy'n eang ei wahoddiad

Iesu, yng nghroth Mair, yw'r hwn, yng ngeiriau rhyfeddol Sant Paul yn y Colosiad, sydd eisoes â 'holl gyflawnder y duwdod yn preswyllo'n gorfforol' ynddo. Ni chaiff tragwyddol Fab Duw ei gyfyngu gan y greadigaeth; ef sy'n amgylchynu ac yn cynnal y cyfan oll. Y mae'r nefoedd a'r ddaear yn byw trwy rodd o fywyd ganddo ef (ynddo ef yr oedd bywyd, meddai efengyl Sant Ioan).

Ac yma, yn 'lle cyfyng' corff Mair mae llawnder dwyfol yn fyw; pan gaiff Iesu ei eni, 'yr hwn sy'n cyflawni pob peth ym mhob man', a dyfynnu Paul drachefn, caiff ei rwymo mewn cadachau a'i osod o fewn cafn bwydo anifail. Ac wedi'r croeshoeliad, caiff llawnder Duw ei gloi o'r neilltu mewn beddrod. Dull Duw gyda ni yw nid ein gorlethu ag ysblander ei fawrhydi ond byw ei fywyd yn 'y lle cyfyng' ac yno llefaru wrthym eiriau tawel sy'n ein galw i ymddiriedaeth ffydd.

Rowan Williams

Dyma ddyfodiad a gyhoeddwyd gan angylion

"Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau." A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd:

"Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel",

hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni".

Mathew 1: 20-23

Dyma ogoniant dwyfol na allodd doethion byd ei adnabod

Pan gyraeddasant [Mair a Joseff] Fethlehem, nhw oedd y mwyaf dinod a dirmygedig ... Ni sylwodd ac nid oedd unrhyw un yn ymwybodol o beth yr oedd Duw yn ei wneud yn y stabl. Gadawodd y tai mawr a'u hystafelloedd moethus yn wag a chaniatáu i'w trigolion fwyta, yfed a bod yn llawen; ond y mae'r diddanwch a'r trysor arbennig hwn wedi ei guddio oddi wrthynt. O! noson mor dywyll a gaed ym Methlehem, gan nad oedd yn ymwybodol o'r goleuni gogoneddus [a gaed ynddi]. Gwelwch sut y mae Duw yn dangos ei fod yn ddibris o'r byd, ei feddiannau, neu ei ddyheadau; ac y mae'r byd yn dangos cyn lleied y mae'n adnabod neu'n sylwi ar bwy yw Duw neu beth a wna.


Martin Luther

Dyma ganolbwynt myfyrdod saint yr oesoedd

'Gorwedda Iesu mewn preseb, ond ef sydd â'r gallu ganddo, ef sy'n rheoli'r bydsawd; caiff ei fwydo ar fron (ei fam) ac yntau yn ymborth i angylion; fe'i gwisgwyd mewn cadachau baban ac ef yw'r un sy'n ein gwisgo gydag anfarwoldeb; mae'n sugno a chaiff ei addoli; ni chafodd le yn y llety ac eto mae'n adeiladu templeu yng nghalonau credinwyr. Daeth nerth yn wan er mwyn i weiniaid ddod yn gryf.'

Awstin Sant

O'r Llwyfan



Llun: James Handley on Unsplash

Anogaeth angylion

Am y tro cyntaf erioed mae llai na hanner poblogaeth Cymru, sef 43.6%, yn disgrifio'u hunain fel Cristnogion ond gyda llawer llai na hynny, fel y gwyddom, yn mynychu oedfaon ar y Sul yn ein heglwysi. Mae'n siŵr nad yw'r newyddion hyn yn peri syndod i unrhyw un sy'n ymwneud â'r ffydd Gristnogol, ac o ystyried y patrwm dros y blynyddoedd diwethaf mae'n debyg mai'r un fydd y tueddiad yn y dyfodol hefyd.

Yn ogystal, siom oedd deall fel y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011. Yn naturiol, mae angen dadansoddi'r holl ystadegau yn fanwl ac yn ystyriol, ond mae'r darlun yn ddiagon clir.

Yn y fath sefyllfa, hawdd yw inni uniaethu ein hunain â geiriau'r salmydd: 'Oni fyddi'n ein hadfywio eto, er mwyn i'th bobl lawenhau ynot? Dangos i ni dy ffyddlondeb, O Arglwydd, a rho dy waredigaeth inni' (Salm 85:6).

Beth felly a wnawn?

Yn ogystal â chefnogi ac annog ein heglwysi, mae angen parhau i chwilio am ffyrdd newydd o genhadu a dangos cymaint y mae'r ffydd Gristnogol yn ei gynnig heddiw. Yn wyneb yr erchyllterau yn Wcraïn ac mewn mannau eraill yn y byd, ynghyd â'r argyfwng newid hinsawdd a'r costau byw uchel sydd yn wynebu

trigolion Cymru, nid oes ddywaith am berthnasedd bywyd Iesu Grist yn yr unfed ganrif ar hugain. Wrth gwrs, mae gweddi feunyddiol yn angenrheidiol yn ogystal â chwilio'n fwriadol am gyfleoedd i rannu ein profiadau o'r Duw byw, nid yn unig gyda'n pobl ifainc ond gyda phob cenhedlaeth yn ddiwahân.

Mae'n siŵr y gofynna Duw inni hefyd fod yn agored i batrymau a mynegiannau newydd o addoli ac i gynyddu'r cydweithio rhwng yr enwadau. Ond mae angen bod yn ofalus hefyd oherwydd wrth i niferoedd ein heglwysi leihau gall hyn arwain yn aml iawn at gynydd mewn tensiwn, cystadleuaeth, gwrthdaro a chwerwder ar bob lefel o fywyd eglwysig, a hynny yn ei dro yn arwain at greu hyd yn oed mwy o ddiffastod.

Addewid Angel

A ninnau ar drothwy'r Nadolig cefais f'atgoffa yn ddiweddar o ddau addewid a wnaed gan yr angel Gabriel wrth iddo gyfarch Mair adeg rhagfynegi genedigaeth Mab Duw. Yn ystod y sgwrs datgelir dau beth pwysig sy'n nodweddu teyrnas Iesu ac sy'n gymorth i'n gwreiddio yn realiti presenoldeb Duw gan roi ffocws cadarnhaol inni yn ein gwaith fel Cristnogion.

Yn gyntaf, dywed Gabriel na fydd terfyn ar deyrnas Mab y Goruchaf: 'ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd' (Luc 1:33). Yn nghyd-destun y lleihad yn niferoedd

y Cristnogion yng Nghymru heddiw a hynny er gwaethaf yr holl waith diwyd a gyflawnir gan ein heglwysi ledled y wlad, mae'n dda medru pwyso ar yr addewid hwn a gwybod i bob sicrwydd y bydd teyrnas Crist yn goresgyn pob anhawster gyda phob mynegiant o ffydd yn cyfri tuag at barhad ei frenhiniaeth. Bu'r addewid hwn pan oedd yr Eglwys yn wynebu cyfnodau o drai yn ei hanes yn destun anogaeth a chalondid i bob Cristion. Boed felly heddiw hefyd!

Yn ail, mae gan Gabriel addewid sydd hyd yn oed yn fwy o ryfeddod wrth iddo ddweud wrth Mair na fydd dim yn annichon: 'oherwydd ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw' (Luc 1:37). Mae'r dasg o adeiladu'r deyrnas yn gallu ymddangos yn anodd, ac amhosibl, ar adegau, a hawdd yw cael ein tentio i roi'r ffidil yn y to wrth geisio goresgyn her ar ôl her. Ond yn wyneb pob anhawster cofiwn eiriau Gabriel am allu anhraethol ein Harglwydd Iesu ac nad oes dim y tu hwnt i'w allu dwyfol.

Felly, wrth inni ddwys ystyried goblygiadau cyfrifiad 2021, boed i'r addewidion uchod fod yn ysbrydoliaeth ac yn gymorth inni yn ein gwaith o gyhoeddi Efengyl Iesu Grist y Nadolig hwn a thrwy gydol y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol
Undeb Bedyddwyr Cymru

O'r Swyddfa

Llawenydd Neges y Nadolig

'Wele bydd y wryf yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel.' (Eseia 7:14)

Wrth i'r Nadolig agosáu mae'n amser i ni lawenhau eto yn rhyfeddod ein ffydd – bod Duw wedi dod i'n byd yn ei fab Iesu Grist. Mae'n amser hefyd i adlewyrchu a rhoi diolch am y flwyddyn a aeth heibio.

Maefyniolchi'n fawriawn i bawbohonoch am bob cefnogaeth a chydweithio, a hynny wedi bod yn fendith fawr wrth feddwl am fy chwe mis cyntaf yn y gwaith fel Ysgrifennydd Cyffredinol. Digion heriol fydd y Nadolig hwn a'r flwyddyn i ddod i lawer o'n teuluoedd a'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau. A gaf i eich annog hyd y mae'n bosibl i ddangos haelioni tuag at rai sy'n ei chael yn anodd yn ein plith a meddwl yn ddychmygol ac ymarferol am bethau y gallem eu gwneud fel unigolion ac fel eglwysi? Clywsom lawer o sôn am hybiau gwres ar hyd a lled y wlad – pob dymuniad da i chi fel cynulleidfaoedd os ydych yn meddwl mentro ar gynlluniau o'r fath.

Yn ddigon ansicr y dechreuodd 2022, roeddem ni i gyd yn byw dan gysgod Covid drachefn. Ein siom mwyaf oedd na lansiwyd ein Hapêl Cymorth Cristnogol 'Hadau Gobaith' yn Nhrefeca ar y 13eg o Ionawr. Ond fel yr ydym wedi arfer dros y tair blynedd diwethaf, cawsom lawnsiad rhithiol i'r apêl gan ein Llywydd, Evan Morgan, a hynny o stiwdio Sanctuary ym Mhontypridd, a chyrraedd llawer iawn mwy ohonoch. Diolch i Evan am ei ymdrechion yntau ym mhob henaduriaeth dros y flwyddyn, yn casglu arian at yr apêl, ac i chwithau i gyd sydd wedi bod wrthi yn lleol ac sydd wedi trefnu casgliadau a digwyddiadau i ddod eto.

Mae adnoddau i'ch helpu i rannu gwybodaeth am yr apêl ar gael ar ein gwefan, www.ebcpcw.cymru, â'r adnoddau diweddaraf yn rhoi sylw i'r gwaith yn Honduras.

Ganddathlu ein cysylltiadau byd-eang a'n perthynas efo'r eglwysi hynny a ddaeth



Llun: unsplash.com

i fod yn sgil ein cenhadaeth fel Cymry yn eu plith, fy mraint i ym mis Hydref oedd cael bod yn rhan o wasanaeth dadorchuddio carreg sylfaen estyniad newydd i ysbwy Dr H. Gordon Roberts yn Shillong. Cefais gwneud hynny yn rhithiol gan nad oedd fisa i'w chael mewn pryd i ymuno efo nhw yno. Yr oeddwn i yno ar eich rhan i gyd, gan mai chi fel eglwysi a gasglodd £115,000 tuag at y gwaith hwn yn y blynyddoedd diwethaf yma, ac felly yn galluogi llawer o'r gwaith adeiladu a gofalu yma i ddigwydd yn yr ardal hon ym Meghalaya yng Ngogledd-ddwyrain yr India. Ar nodyn mwy syber, yr ydym yn falch hefyd inni gael estyn cymorth i'n chwaer eglwys ym Myanmar wrth iddyn nhw ddygymod â chyfyngiadau a gofidiau mawr ar ôl y *coup* yno flwyddyn a hanner yn ôl. Cofiw'n amdanant i gyd a llawenhau yn y berthynas sydd gennym yng Nghorff Crist yn fyd-eang.

Llawenydd mawr yw gweld cenhedlaeth newydd yn cymryd at waith o arweinyddiaeth yn ein heglwys. Wedi



blynyddoedd o baratoi ac o weithio yn ein plith, fe gawsom ordeinio Alun M. Thomas a Nerys Griffiths yn Sasiwn y Gogledd yn Wrecsam ym mis Tachwedd. Edrychwn ymlaen at gael ordeinio rhagor eto yn y blynyddoedd i ddod a chael gweld yr Arglwydd yn galw eraill i ymroi yn llwyr yn eu gwasanaeth iddo er mwyn ei eglwys.

Wrth feddwl am y dyfodol hwnnw, y mae 14 o swyddi gwaith arloesol yn cael eu creu a'u cynnig yn ein plith er mwyn rhoi cyfle i gefnogi ein henaduriaethau mewn cenhadaeth a gweinidogaeth i'r dyfodol. A hynny drwy ymestyn allan mewn ffyrdd newydd a chyfoes.

Yn weddigar ac yn hyderus yr edrychaf ymlaen am flwyddyn newydd, ac am gael parhau i gydweithio â'n gilydd yn 2023. Dymuniadau gorau a phob bendith i chi, ac i'ch teuluoedd i gyd dros y Nadolig.

Nan Powell-Davies
Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys
Bresbyteraidd Cymru

TUDALEN Y PLANT



Cofiwch bod *Seren Bethlehem* a *Comic Beiblaidd Nadolig* - dau gomic Beiblaidd Nadolig i blant ar gael gan Cyhoeddiadau'r Gair neu o'ch Siop Gymraeg leol.

FAINT?

1. Faint o filwyr fedri di weld?

2. Faint o wahanol bobl fedri di gyfrif? Paid â chyfrif yr un bobl ddwywaith.

3. Faint o weithiau mae llun Mair i'w weld?

4. Faint o weithiau rydym ni'n gweld yr asyn?


CHWILAIR

Roedd yr Ymerawdwr eisiau i'w bobl i gyd gael eu cyfrif. Faint o enwau fedri di gyfrif yn y chwilair?


A	P	L	L	O	N	P	A	P
B	E	U	Y	D	A	F	Y	DD
D	S	O	U	C	I	L	E	I
I	N	J	Y	L	H	C	S	O
A	C	O	M	A	I	R	U	P
G	A	S	P	O	M	C	S	G
O	P	E	D	R	R	I	U	R
S	D	FF	M	E	M	R	A	E
E	T	H	P	O	N	W		
F	B	A	P	L	A	B		

BETH YW'R GWAHANIAETHAU?

Fedri di ddod o hyd i chwech o wahaniaethau rhwng y ddau filwr isod a'r milwyr yn llun cyntaf y tudalen stori?



CROESAIR



Ar ôl i chi lenwi'r croesair, fe fydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf yn sillafu geiriau o fawl. Daw'r dyfyniadau o'r Beibl Cymraeg Newydd neu *Caneuon Ffydd*.

Ar draws

7. ----, -- anwyd
Brenin yr angylion. *J. F. Wade* (4,2)
8. "Peidiwch â mynd i gyfeiriad y Cenhedloedd, a pheidiwch â mynd i mewn i un o -----' Samariaid." (*Mathew 10*) (5'1)
9. Ar ôl clywed rhybudd yr angel, cymerodd Joseff y plentyn a'i fam - - - i'r Aifft. (1,3)
10. Pan glywodd hi gyfarchiad Mair, llamodd y plentyn yn ei chroth a llanwyd ----- â'r Ysbryd Glân. (*Luc 1*) (8)
11. Gwahoddwch y tlodion
a'r clwyfus a'r cleifion
a'r gweiniaid a'r gweddwon
â chroeso -'-----'. *Rhys Prichard* (1'1,5)
12. Yr oedd gan Laban ddwy ferch; enw'r hynaf oedd Lea, ac enw'r ieuengaf -----'. (*Genesis 29*) (5)
15. Gosododd y colofnau ym mhorth y deml; cododd y golofn dde a'i galw'n -----'. (*I Brenhinoedd 7*) (5)
17. Y mae dyrnodau cyfaill yn ddiwyll, ond ----- gelyn dwyllodrus. (*Diarhebbion 27*) (7)
20. Yn y nef gogoniant,
hedd i -----'. *J. M. Howell* (5-3)
22. ---- ac Omega (4)
23. Nid oddi ar lwyni ----- mae tynnu grawnwin. (*Luc 6*) (5,1)
24. Ac yn ----- yr oedd yn eistedd ryw ddydd â'i draed yn ddiffwrth. (*Actau 14*) (6)

I lawr

1. ----- iti, faban sanctaidd,
plygu'n wylaidd iti wnawn. *Bardd Du Môn* (6)
2. O tyred, O tyred, heb ---- -,
- lety'r anifail i'w gweled hwy. *W. Rhys Nicholas* (4,3,1)
3. "Oherwydd gwelsom ei ----- ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli." (*Mathew 2*) (5,2)
4. Daeth y bedwaredd nos ar ddeg, a ninnau'n dal i fynd gyda'r lli ar draws Môr -----'. (*Actau 27*) (5)
5. Ar ôl hyn edrychais, ac wele ddrws wedi ei agor yn y ---, - dyma'r llais a glywswn gyntaf yn llefaru wrthyf. (*Datguddiad 4*) (3,1)
6. Credodd pobl ----- yn Nuw, a chyhoeddasant ymryd a gwisgo sachliain, o'r mwyaf hyd y lleiaf ohonynt. (*Jona 3*) (6)
13. Yna dywedodd Josua wrth Effraim -----, teulu Joseff, "Yr ydych yn bobl niferus, ac yn nerthol iawn." (*Josua 17*) (1,7)
14. 'Byddant yn dy godi ar -----, rhag iti daro dy droed yn erbyn carreg.' (*Luc 4*) (2,5)
16. Anfonodd Ahas genhadau at Tiglath Pileser, brenin -----'. (*I Brenhinoedd 16*) (6)
18. Gwnaeth rwydwaith ----- cadwyn a'i osod ar ben y colofnau. (*II Cronicl 3*) (2,4)
19. "A dyma'r ----- i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb." (*Luc 2*) (5)
21. Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg ar hugain i Asa brenin Jwda daeth ---- yn frenin ar Israel. (*I Brenhinoedd 16*) (4)

Diolch i Siân Lewis, Llanilar, am baratoi'r Croesair ar ein cyfer eleni eto.

Argraffwch y dudalen ac wedi cwblhau'r croesair anfonwch eich ymgais atom, i: Croesair Cenn@d, Ael-y-bryn, Chwillog, Pwllheli, LL53 6SH, ac fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £20 i'r ateb cywir cyntaf o'r het ar 9 Ionawr ar ei ffordd atoch. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad!



O Gefn Gwlad



Dyfodiad y seren

'Un seren sy'n bwysig i ni,' meddai cân Delwyn Siôn. Gwir, y seren a welodd y sêr-ddewiniaid yn y Dwyrain, y seren a'u harweiniodd at y preseb ym Methlehem.

Y mae i bob seren, meddai'r rhai sy'n eu hastudio, bum nodwedd: disgleirdeb, lliw, tymheredd, maint a chrynswth (*mass*). Ac fe allwn eu trafod yng nghyd-destun y Crist yr oedd yr un seren yn arwydd o'i ddyfodiad i'n byd, y Crist y mae iddo'r un nodweddion â seren.

Disgleirdeb

Sut mae bywyd i chi y dyddiau hyn, tybed? Yn olau neu'n dywyll? Yn obeithiol neu'n ddiobaith? Neu ydi o rywle rhwng y ddau begwn? 'Goleua di ein tywyll stad' – dyna ofyn John Roberts, Llanfwrog, i Grist yn ei emyn ardderchog. Ac mae dyfodiad Crist i'r byd yn achos llawenydd a gobaiht gyda gwawl ei gariad yn tywynnu ar ein bywydau, os dewiswn fyw yn y goleuni yn hytrach nag yn y tywyllwch.

Lliw

Y mae'r lliw sydd i seren yn dibynnu, meddai'r arbenigwyr, ar ei thymheredd, ond nid oes yr un seren sy'n ddi-liw. Sut mae hi yn ein bywydau ni, tybed? Ai bywydau llwydaidd, trist, anobeithiol sy' gynnwys ni? Mae Crist yn gallu rhoi lliw ar y bywyd diflasaf. 'Tydi a roddaist inni flas ar fyw,' meddai W. Rhys Nicholas. Blas a lliw – yr un peth yn y diwedd.

Tymheredd

'... ac mae'r byd yn oer, yn estron imi,' meddai Blodeuwedd yn nrama Saunders Lewis. Blodeuwedd druan, y ferch a wnaed o flodau. Nid o flodau y'n gwnaed ni, ond gall y byd fod felly i ninnau, ac y mae o i lawer. Ond mae dyfodiad Crist yn neges i ddynoliaeth y gall gwres ei gariad ein cofleidio a'n gwarchod rhag gwyntoedd oerion unigrwydd, siomedigaeth a galar. 'Arnwm gwena Duw yng Nghrist,' meddai geiriau'r garol. Dyna ein gobaiht.

Maint

Y mae'r sêr a welwn ni yn y ffurfafen yn fach iawn, rhai yn ddim mwy na phen pin. Ond y pellter sy'n gwneud iddynt ymddangos felly. Mae'r sêr yn fawr, rhai yn anferth. Sut un yw Crist i ni? Ceisia rhai ei wneud yn fychan, yn ddim ond dyn cyffredin; ceisia eraill ei gadw iddyn nhw eu hunain a datgan nad yw'n Grist i bawb. Nid felly. Y mae'n ddigon mawr i gwmpasu pob un drwy'r byd, i fod yn ffynhonnell cariad a thosturi i bob un ohonom, os mai dyna ein dymuniad. Nid oes ynddo, meddai'r emyn, na dwyrain na gorllewin, na gogledd na de. Dyna ei faint.



Llun: Clay Banks on Unsplash (https://unsplash.com/photos/EO9LzL5d_i)

Crynswth (*mass*)

Nid arwynebedd yn unig sydd i seren; y mae iddi hefyd ddyfnder. Felly hefyd y mae Crist. Cyfeirir yn aml gan ein hemynwyr at ddyfnder ei gariad: 'dyfnderoedd cariad dwyfol', meddai William Williams, a 'dyfnderoedd cariad Duw', meddai Emrys, a dyfynnu dwy enghraifft. 'Diderfyn yw ei gariad', meddai Roger Edwards yntau; ond fe gafwyd y llinell sy'n dweud y cyfan am hyd a lled a dyfnder cariad Crist gan William Williams – pwy arall: 'Iesu, nid oes terfyn arnat' – un o linellau mawr emynyddiaeth. Ac mae'r byd yn llawn o bobl sy wedi profi dyfnder diderfyn y cariad hwnnw, y cariad yr oedd dyfodiad Crist i'r byd yn symbol ohono.

Sut Nadolig wnaiff hi inni eleni tybed? Yn gyffredinol well na'r llynedd, gobeithio. Ninnau, siawns, yn cael cyfle i ddiolch am y disgleirdeb, y lliw a'r cynhesrwydd, a hefyd led a dyfnder y cariad ddaeth inni, a chyfle i gydganu'n orfoleddus: 'Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn!'

Elfyn Pritchard

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 25 Rhagfyr, am 7.15yh

Nia sy'n cyflwyno rhaglen arbennig i nodi pen-blwydd yr arweinydd byd-enwog Owain Arwel Hughes yn 80 oed

BBC | radio
cymru

Sul, 25 Rhagfyr, am
7yb ac 1yp

Oedfa'r Dolig dan arweiniad Beti Wyn James a chriw ieuenticid Capel y Priordy, Caerfyrddin

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 25 Rhagfyr, am 2:30yp

R. Alun Evans yn cyflwyno'r rhaglen gyntaf mewn cyfres yn trafod gwahanol themâu. Heddiw, y Nadolig yw'r thema

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

'Ar gyfer heddiw'r bore'

Gweddi

Arglwydd hollalluog, rhyfeddwn y bore hwn ddyfod Duwdod mewn baban i'n byd. Caniatâ i ninnau, drwy gydol tymor y dathliad hwn, dderbyn dy ras, cyhoeddi dy haeddiant a gweithio drosot yn ein byd cythryblus. Bydded i eiriau llw'r nef a dawn dy Ysbryd Glân ein cyfeirio atat drachefn fel y medrwn dy addoli. Amen.

Emyn 472 'O deued pob Cristion'

Darlenniad: Esea 9:2-7

Gweddi

Mewn byd o gaddug, mewn oes o dristwch, newyn a rhyfela, dyhëwn drachefn, drwy dy Ysbryd Glân, am weld y goleuni mawr a addewaist yn disgleirio'n amlwg yn ein plith. Yn awr, y funud hon, drwy dy ras, a wnei di ganiatáu i ni weld y 'bachgen a aned i ni', y 'mab a roed i ni'. Hiraethwn am yr hwn 'y bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd'. Yr ydym ninnau am addef, gyda holl lu'r proffwydi a holl dyrfa saint y nef, mai Iesu yw'r 'Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon' o drefniant ac o fwriad Duw. Dyhëwn am gynnydd ei lywodraeth ef; hiraethwn am i'w heddwch orlenwi'r ddaear faith â'rh glod. Amen.

Darlenniad: Luc 2:1-20 – Genedigaeth Iesu

Dall a byddar

Mae'n fwy na phosibl, hyd yn oed i ni a gafodd y fraint o gael ein magu i ddotio at ryfeddod hanesion y Nadolig, cynefino cymaint â hanes geni Iesu fel na allwn ryfeddu mwyach at yr hyn a glywn. Mor annwyl yw'r atgofion am Fair ein 'drama geni' ac am dinsel angylion tlws, neu'r atgofion am 'frenhinoedd' mewn gwisgoedd llaes, neu 'fugeiliaid' â lliain sychu llestri'n benwisgoedd 'dwyreiniol' parod. Mor dlws yw'r atgofion fel na fedrwn glywed heddiw ryfeddod yr hyn a ddywedir wrthym gan awduron yr Efengylau.

Gwleidyddiaeth

Un o'r elfennau yr aethom yn ddall iddo yw'r chwyldro gwleidyddol a chymdeithasol a gyhoeddwyd yn yr Efengylau wrth iddynt adrodd hanes geni Iesu, mab Duw.

Gofynion gwleidyddol arweiniodd Joseff a Mair i Fethlehem. Wrth rifo poblogaeth ei ymerodraeth, ni chrosodd feddwl Cesar Awgustws y medrai genedigaeth

plentyn bychan mewn tref ddinod farnu a bygwth yr ymerodraeth a gynrychiolai, na'i awdurdod, na'i allu, na'i frenhiniaeth.

Ond nid ar wahoddiad Cesar na chwaith drwy ganiatâd ymerodrol Cesar y ganwyd Iesu i'r byd, ac ni fedrodd Herod a'i luoedd niferus a chreulon atal ei ddyfodiad chwaith. Ni cheisiwyd mandad pleidlais ddemocrataidd i gyhoeddi bod Teyrnas Dduw wedi dod yn agos ynddo ef!

Na! Daeth Iesu i'r byd o 'fro'r gogoniant' am fod Duw ei hun, yr hwn oedd wedi llefaru wrth y byd mewn llawer dull a modd, drwy'r proffwydi, wedi dewis, yng nghyflawnder yr amseroedd, datguddio'i hun i'r byd mewn Mab (Hebreaidd 1:1).

Brenin yr angylion ...

Nid mewn palas rhwysgfawr y cyhoeddwyd brenhiniaeth y cawr mawr bach. Ond trwy ddwyfol apwyntiad safodd angel a llw'r nefoedd i gyhoeddi, wrth fugeiliaid dinod, neges sy'n parhau i adleisio o genhedlaeth i genhedlaeth, o wlad i wlad, o genedl i genedl.

Nid rhwysg na grym milwrol a arswyddodd fugeiliaid ofnus Bethlehem ond datganiad o bresenoldeb dwyfol a chyhoeddiad o'i Air.

Fel ym mhob datguddiad 'nefol', i'r hwn sy'n 'gweld', sy'n 'deall', sy'n cael ei lenwi gan sain geiriau grasol Duw, mae'r gogoniant, yn nysgleirdeb yr 'adnabod' mor amlwg, mor ddisglair â'r haul yn y nef ei hun.

Ar yr olwg gyntaf, i bob un sy'n profi realiti a grym presenoldeb a gair Duw, arswyd yw'r ymateb mwyaf addas. Ofnwn y presenoldeb di-wahoddiad. Ofnwn ei eiriau. Ofnwn eu hobylygiadau. Ofnwn pa newidiadau fydd yn dod fel canlyniad i'r cyfarfyddiad grasol hwn.

Gair cyntaf yr Arglwydd i bob un a'i clywo, wrth iddo gyfarch eu heneidiau, yw'r anogaeth syml, 'Peidiwch ag ofni, oherwydd wele ...'

Daw Gair Duw atom, fel at y bugeiliaid, gan 'gyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl'. Ein braint yw cael ein harwain yn *bersonol* i ddeall bod rhyfeddod gras Duw tuag atom ni hefyd, yr un pryd, yn fynegiant *cyhoeddus* o'i ddyhead 'i'r holl bobl'.

Ac am neges ryfeddol: 'Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr

hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.' Wedi ei ymgawdoli, mewn lle arbennig, mewn oes arbennig, ganwyd Gwaredwr sydd â chyrrhaeddiad ei allu'n fyd-eang. Dyma un sy'n cyflawni disgwyliad y proffwydi ac addewidion yr Arglwydd i'w bobl am frenin o linach Dafydd. Ni chyhoeddwyd uwch ei ben gan greadur meidrol 'dyma eich tywysog' fel pe bai'n dibynnu am gefnogaeth y sefydliad i'w feddiannu. Na, dyma Feseia o benodiad dwyfol. Dyma Arglwydd sydd â'i deyrnas rasol yn frenhiniaeth heddychlon, na all gallu uffern ei rwystro, na'i atal, wrth iddo ledaenu i bob gwlad a llwyth ac iaith. Dyma Feseia dwyfol, yr hwn sydd yn etifedd y nef, yn Arglwydd ar bopeth, yr hwn sy'n cyhoeddi gostyngeddwrwydd chwyldroadol ei ddyfodiad drwy gael ei eni mewn stabl ac mewn preseb benthg.

Dyma frenin sy'n arswyd ym mhob oes i bob brenhiniaeth ffug. Nid gan Cesar na chan ymerodraethau cyfyng y byd y perthyn y gwir allu ac awdurdod. Perthyn hwnnw yn unig i Iesu Grist, Arglwydd yr arglwyddi a Brenin brenhinoedd.

Gwahoddiad

Caiff pob un ohonom y Nadolig hwn, fel ym mhob oedfa o fawl, ein gwahodd drwy gyfarwyddyd gair Duw i chwilio am 'y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano'. Ac wrth i ni ganfod yr hwn y cyfeiriodd y proffwydi a'r angylion ni ato, cawn ein llenwi ag awydd i ymostwng iddo i'w addoli a'i wasanaethu.

Gweddi

Dirion Dad, diolchwn i ti dy fod, yn dy Fab Iesu Grist, wedi ymweld â'rh bobl gan ddod fel un ohonom. Diolch am rannu gyda ni ym mhopeth heblaw ein gwrthryfel a'n pechod i'rh erbyn. Diolchwn fod Iesu wedi dod i'n byd gan fod yn ufudd hyd at angau'r groes, er ein mwyn. Diolchwn dy fod wedi tra dyrchafu dy Fab, Iesu Grist, i fod yn Arglwydd dros bopeth a grëwyd. Arglwydd Iesu, gwna ninnau'n ddoeth i iachawdwriaeth. Caniatâ i ninnau, fel unigolion ac fel cynulleidfaoedd, drysori'r neges a gyhoeddwyd gan angylion, y tystiwyd iddynt gan fugeiliaid, a gyhoeddwyd heddiw yn ein clyw. Arglwydd, unwn eto heddiw ym mawl y nef. Tania ynom ffrwydrad o orfoledd er dy fwyn. Casgla'r holl genhedloedd yn dy gôl fel y bydd i gyfiawnder a heddwch gusanu euog fyd yn derfynol. Amen.

Emyn 464 'Ar gyfer heddiw'r bore'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru

[f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru)

[t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)